Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

21 Tachwedd 2013

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus**

Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi penderfynu cynnal Ymchwiliad byr i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y materion canlynol:

- I ba raddau y gwnaed cynnydd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiadau ei Rhaglen Llywodraethu sy'n ymwneud a llyfrgelloedd, a pha mor gynaliadwy yw unrhyw gynnydd yn yr hinsawdd sydd ohoni;
- I ba raddau y mae'r fframweithiau deddfwriaeth a pholisi presennol yn addas i ateb yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru;
- Pa mor barod yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer lliniaru effaith toriadau yn y sector cyhoeddus ar wasanaethau llyfrgelloedd;
- Opsiynau ar gyfer gwella cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau llyfrgelloedd, gan gynnwys modelau amgen ar gyfer eu darparu;
- Y rôl gyfoes a chymunedol sydd gan lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg gan unigolion a sefydliadau, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn/Tel: 029 2089 8147
E-bost / E-mail: pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk

Ni ddylai’r dystiolaeth fod yn hwy na phump ochr tudalen A4. Dylid rhifo’r paragraffau, a dylai’r dystiolaeth ganolbwyntio ar y materion fel y’i nodir uchod.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig (ni ddylai fod ar ffurf dogfen PDF yn ddelfrydol) i **Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk**.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **17 Ionawr 2014**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai’r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o’r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr adolygiad. Bydd copi o’r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=8295

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae’n arferol i’r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy’n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth yr ystyrir ei fod yn ddata personol.

Os cawn gais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw’n addas i’w datgelu i’r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

**Christine Chapman AC**
Cadeirydd